
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil

*1af Awst 2018 – 31ain Gorffennaf 2019*

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymo’n gryf i’r egwyddorion a geir yn y **Concordat i Gefnogi Uniondeb Gwaith Ymchwil**. Mae’r datganiad blynyddol hwn yn amlinellu safbwynt y Brifysgol mewn perthynas ag uniondeb ymchwil, yn cynnwys y camau a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth, yn ogystal â datgelu’n llawn unrhyw honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil.




*Mae’r datganiad cyhoeddus hwn yn ymwneud â gwaith ymchwil a wneir gan staff academaidd a myfyrwyr ymchwil uwchraddedig. Mae’r gwaith ymchwil a wneir gan israddedigion a myfyrwyr uwchraddedig trwy gwrs yn cael ei weinyddu gan y Gofrestrfa Academaidd o dan reoliadau Ymddygiad Academaidd Annerbyniol.*

---

Mae ymchwil yn rhan annatod o genhadaeth a gwaith Prifysgol Aberystwyth. Fel derbynnydd arian cyhoeddus, mae’r Brifysgol yn cydnabod yr angen i fod yn arloesol ac yn uchelgeisiol ac eto yn gyfrifol ac yn broffesiynol. Crynhoir hyn yng **Nghynllun Strategol y Brifysgol 2018-23**.

Cydnabyddir bod 95% o’r gwaith ymchwil a gyflwynwyd gan Brifysgol Aberystwyth i’r FfRhY2014 o safon ryngwladol. Er mwyn cynnal ac adeiladu ar bortffolio ymchwil llwyddiannus y brifysgol, mae’n bwysig ein bod yn ymrwymo i gynnal ymchwil o’r safon uchaf, o’i gynllunio i’w ledaenu, trwy ddangos didwylledd, cywirdeb ac uniondeb yn ein holl weithgarwch ymchwil.

Rydym yn cyflawni hyn trwy atgyfnerthu ein hymchwil â nifer o brosesau ansawdd a thrwy ddarparu cymorth, polisïau a chanllawiau perthnasol ar fformat sy’n gyffredinol hygyrch.

---

## Llywodraethu

Fel y nodir yn ei gylch gwaith, **Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol** sy'n gyfrifol yn gyffredinol am oruchwylio a gweithredu'r Concordat, yn ogystal â pholisïau, a gweithdrefnau cyffredinol sy'n ymwneud â moeseg, uniondeb a llywodraethiad.

Mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn adrodd i'r Senedd. Cadeirir y Pwyllgor gan y Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio a / neu'n derbyn adroddiadau gan y pwyllgorau isod:

- Panel Moeseg Ymchwil
- Panel Nawdd (i ystyried a chymeradwyo nawdd ar gyfer ceisiadau moeseg y GIG)
- Bwrdd Adolygu Lles Anifeiliaid a Moeseg (AWERB)

**Yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi** sy'n darparu cefnogaeth weithredol o ddydd i ddydd ar bob mater sy'n ymwneud â moeseg, uniondeb a llywodraethiad. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor a chynnal nifer o ddigwyddiadau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ar bob lefel o'r gymuned ymchwil. Mae'r Adran hon hefyd yn cefnogi Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol a'r Paneli Moeseg Ymchwil.

Yn yr un modd, mae'r Cyfadrannau ac Adrannau academaidd yn chwarae rhan bwysig yn sicrhau bod y gwaith ymchwil a wneir gan ei staff a myfyrwyr ymchwil uwchraddedig yn cael ei wneud yn briodol ac i'r safon uchaf. Mae gan bob Cyfadran Ddeon Ymchwil Cyswllt, sy'n aelod o'r staff academaidd, ac sy'n gyfrifol, ymhlith pethau eraill, am oruchwylio a hyrwyddo ystod o faterion sy'n gysylltiedig ag ymchwil.

Wedi'i deilwra ar gyfer myfyrwyr ymchwil uwchraddedig, mae **Ysgol y Graddedigion** yn goruchwylio ac yn cefnogi datblygiad pellach uwchraddedigion trwy ddarparu hyfforddiant, megis y *Rhaglen Datblygu Ymchwil* a chyfres o ddigwyddiadau ymgyfarwyddo trwy gydol y flwyddyn academaidd.

___

## Polisïau a Gweithdrefnau

Mae gan y Brifysgol nifer o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud yn briodol, yn ogystal â sicrhau bod dulliau effeithiol ar gael er mwyn rhoi gwybod am bryderon neu ymholiadau. Caiff y polisïau hyn eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd gan bwyllgor Llywodraethiant priodol y Brifysgol:

| | |
|---|---|
| - Fframwaith Moeseg Ymchwil | - Polisi Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban) |
| - Polisi Ymchwil Sensitif | - Protocol Uniondeb Proffesiynol |
| - Canllawiau Cyhoeddi ac Awduraeth | - Polisïau Diogelu, Prosesu a Chynnal Data |
| - Gweithdrefn ymchwilio i Gamymddygiad mewn Ymchwil | - Polisi Rheoli Data Ymchwil |

---

## Hyfforddiant

Mae hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ym meysydd moeseg ac uniondeb yn chwarae rhan bwysig wrth hwyluso arferion ymchwil da. Anelir y digwyddiadau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth yn Aberystwyth at bob lefel o ymchwilwyr ac fe'u cyflwynir mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Hyd yma, cafwyd ymgyrch i sicrhau bod myfyrwyr sy'n ymchwilio ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau tuag at gynnal y safonau moesegol uchaf wrth gyflawni eu gwaith ymchwil.

Anogir cydlynwyr modiwlau a staff adrannol eraill sy'n dysgu israddedigion ac uwchraddedigion trwy gwrs i wneud prosesau a gweithdrefnau priodol y Brifysgol yn rhan annatod o'u dysgu. Caiff hyfforddiant i israddedigion ar foeseg ymchwil ei drefnu yn yr adrannau. Mae Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn cyflwyno'r modiwl '*Ethics, Plagiarism and Academic Practice'* i uwchraddedigion ymchwil, gyda chymorth Ysgol y Graddedigion. Mae'r modiwl hwn yn orfodol i bob myfyriwr ymchwil newydd (PhD ac MPhil). Rhaid i'r myfyriwr lwyddo yn y modiwl er mwyn mynd ymlaen i astudio yn yr ail flwyddyn. Roedd hi'n bleser hefyd i groesawu ac ymgysylltu â nifer o'n myfyrwyr Doethurol Proffesiynol mewn nifer o ysgolion preswyl a gynhaliwyd eleni.

Gwahoddir ac anogir ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa a staff academaidd sydd newydd eu penodi i fynd i nifer o sesiynau sydd wedi'u teilwra a'u cyflwyno drwy gydol y flwyddyn academaidd. Gall aelodau o'r staff ymchwil presennol hefyd fynd i'r sesiynau hyn. Rydym yn parhau i fod yn rhan o'r rhaglen dreigl o sesiynau *Ymarferion Da Ymchwil* a gyflwynir gan Ymchwil, Busnes ac Arloesi ar draws PA, ac a gyflwynwyd i ystod o staff ymchwil newydd a chyfredol.

Darparwyd hefyd hyfforddiant allanol i ymchwilwyr. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Brifysgol wedi darparu nifer o fodiwlau hyfforddi o'r Swyddfa Gartref i ymchwilwyr y mae'n ofynnol iddynt gael trwydded reoleiddiol i weithio gydag anifeiliaid. Gyda chymorth Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO), cynhaliwyd hefyd sesiwn hyfforddi un-dydd ar Adolygu Moeseg Ymchwil (Mawrth 6ed 2019) ar gyfer aelodau ein Panel Moeseg Ymchwil, dan arweiniad Dr David Carpenter (UKRIO).

Mae'r Brifysgol yn falch o'r lefelau ymgysylltu o'r gymuned ymchwil a bydd yn parhau i ddatblygu a mireinio'r hyfforddiant a gynigir ganddi ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019/20.

## Aelodaeth Allanol

Mae Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn parhau i gymryd rhan weithgar yng Nghymdeithas y Rheolwyr a Gweinyddwyr Ymchwil (ARMA).

Mae'r Brifysgol yn aelod o Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO). O ganlyniad, derbyniodd y Brifysgol gefnogaeth ar faterion uniondeb a chamymddygiad ymchwil, sy'n gyson â'r egwyddorion a'r disgwyliadau a geir yn y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil.
Dylid cyfeirio pob ymholiad am y datganiad hwn neu weithgareddau'r Brifysgol sy'n gysylltiedig â'r Concordat at un o'r enwau cyswllt isod:

Dr Jennifer Deaville – Rheolwr Datblygu Ymchwil, Yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi
Lisa Fisher – Swyddog Moeseg ac Uniondeb Ymchwil, Yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi

Os oes gan rywun sy'n darllen y ddogfen hon bryderon ynghylch ymddygiad ymchwilydd ym Mhrifysgol Aberystwyth, dylent droi, yn y lle cyntaf at y polisi a'r weithdrefn briodol (gweler tudalen 3). Os ydych yn ansicr pa bolisi sy'n berthnasol neu os ydych yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil, cysylltwch â'r tîm Moeseg Ymchwil a fydd yn gallu eich cynghori:

✉ moeseg@aber.ac.uk
☎ 01970 621694

**Crynodeb o Ymchwiliadau i Gamymddwyn mewn Gwaith Ymchwil**

Ar sail y Weithdrefn Ymchwilio i Gamymddwyn mewn Ymchwil, gall y Brifysgol adrodd **na fu** ymchwiliadau **lefel uchel (ffurfiol**) mewn perthynas â chamymddwyn mewn gwaith ymchwil yn 2018-19.

| **2018/19** | **Nifer yr honiadau y cynhaliwyd ymchwiliad ar eu cyfer** | | **Nifer yr honiadau a gadarnhawyd** (yn llwyr neu yn rhannol) | |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff** | **Ymchwil Uwchraddedig** | **Staff** | **Ymchwil Uwchraddedig** |
| **Anwireddu** | | | | |
| **Ffugio** | | | | |
| **Llên-ladrad** | | | | |
| **Camliwiad** | | | | |
| **Torri Dyletswydd Gofal** | | | | |
| **Delio'n amhriodol â honiadau o gamymddwyn** ac ati | | | | |
| **Arall** (e.e. tramgwyddo'n foesegol neu ymddwyn yn amhroffesiynol ) | | | | |

DATGANIAD DIM

JD
Tachwedd 2019